

Manon Steffan Ros

Enw Manon Steffan Ros

Dyddiad Geni 19.01.1983

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Yn Rhiwlas, Dyffryn Ogwen – lle yn llawn llucynnau bach hudol a hanesion difyr.

Ble cawsoch chi eich addysg? Ysgol Rhiwlas ac Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Ro'n i'n hoffi darllen, 'sgwennu, a chwerthin efo fy ffrindiau – ond do'n i ddim yn dda iawn am wneud syms!

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny? Ro'n i wastad eisiau 'sgwennu, ond do'n i ddim yn meddwl y byddwn i'n ddigon lwcus i gael gwneud go iawn!

Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn? Yn Saesneg, Boy gan Roald Dahl, ac yn Gymraeg, Ffiwsi...Be? gan Irma Chilton. Mi wnes i ysgrifennu llythyr at Irma Chilton i ddweud cymaint y gwnes i fwynhau ei llyfr, a gwirioni'n llwyr o gael ateb yn ôl ganddi!

Beth yw eich hoff ddiddordebau? Coginio, tynnu lluniau a chwarae â chlai efo fy hogiau, Efan a Geraint!

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Cerdded i dop y bryn tu ôl i'n tŷ ni a dychmygu'r holl bobol sydd

wedi cerdded ar y llwybrau yna cyn fi!

Beth sy'n eich gwylltio chi? Pobol yn bod yn gas wrth ei gilydd.

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu? Ar ôl i fy mab hynaf, Efan, gael ei eni. Ro'n i eisiau 'sgwennu stori y byddai o'n gallu ei ddarllen pan fyddai o'n hŷn.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf? *Trwy'r Darlun*, nofel gyffrous yn llawn llwydd hudol a bwystfilod rhyfedd!

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu? Rydw i wrth fy modd yn 'sgwennu, ond mae'n anodd cael yr amser weithiau.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? Weithiau, mi fydda i'n clywed rhaglen ddogfen ar y radio ac yn meddwl y byddwn i'n hoffi 'sgwennu am rywbeth fel 'na, dro arall, bydd rhywbeth yn dod i fy meddwl wrth i mi fynd am dro.

Ydych chi'n teimlo ei fod yn bwysig i ysgrifennu mewn dull cyfoes i apelio at gynulleidfa ifanc? Nac ydw, rydw i'n 'sgwennu be' 'dwi eisiau 'sgwennu a dydw i ddim yn meddwl fawr ddim am bethau fel 'na!

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Daliwch ati, hyd yn oed pan 'dach chi'n meddwl fod yr hyn 'dach chi'n ei 'sgwennu yn sothach llwyr!

Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu selio arnoch chi?

Nac oes, ond mae gen i gymeriadau sy'n reit debyg i sut roedd Mam, ac un neu ddau sy'n fy atgoffa i o'm chwaer, Lleuwen, pan oedd hi'n blentyn – direidus ac yn llawn hwyl!

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan? Mi fyddai'n braf 'tawn i ddim mor hoff o siocled a chacenni!

Beth yw eich hoff fwyd? Bara ffres efo menyn.

Beth yw eich hoff le yn y byd? Ar ben y bryn tu ôl i'n tŷ ni ym Mhennal – mae'n bell o bob man ac yn dawel braf.

Oes gyda chi un peth rydych yn ei drysori'n fwy na dim arall? 'Dwi wrth fy modd efo 'nghasgliad o ffotograffau, ond pobol sy'n bwysicach na dim arall.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin? Jocs gwirion fel hon- Be 'da chi'n galw dynes fach, fach? Dot!



Manon Steffan Ros


Ychydig flynyddoedd yn ôl, ro'n i yn nhŷ Nain a Taid yn tyrchu drwy hen gês o ffotograffau o'r teulu, pan ddes i ar draws hen lun oedd wedi melynu braidd, yn blygion i gyd yn y corneli. Llun o hogyn bach oedd o, tua chwech neu saith oed, a hwnnw'n gwisgo dillad hen ffasiwn, a'r olwg ar ei wyneb o fel petasai'n well ganddo fod yn cicio pêl yn rhywle na gorfod sefyll yn llonydd i gael tynnu ei lun. Fy Yncl Cled oedd yr hogyn bach yn y llun, ac mi benderfynais i 'sgwennu stori, a'i wneud o'n brif gymeriad. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, ac rydw i wedi cael blas mawr ar 'sgwennu nofelau, a diolch i hen lun mewn cas llychlyd y mae hynny!




Rydw i wrth fy modd yn darllen, ac wedi gwneud hynny erioed. Pan o'n i'n hogan fach, roedd Mam yn arfer darllen i mi bob nos, a minnau'n arthio arni am 'un bennod fach arall' byth a hefyd! Ac yn wir i chi, rydw i'n dal i ddarllen bob nos. Does 'na ddim byd 'run fath â fo, nag oes? Mae 'na hwyl i'w chael wrth wylio DVDs neu chwarae gêmiau, ond does 'na ddim byd mor ddifyr ag ymgolli mewn llyfr, a'r delweddau yn eich pen chi cystal ag unrhyw rai y cewch chi ar sgrin.

Mae stori'n gallu codi calon hefyd, wyddoch chi, ac yn medru gwneud y sefyllfa fwy diflas yn sbort! Weithiau, pan fydda i eisiau mynd am dro a fy meibion eisiau aros adref, mi fyddwn ni'n creu stori am le bynnag 'dan ni'n mynd am dro, ac wrth i ni gerdded, yn meddwl am y cymeriadau, a be ddigwyddodd iddyn nhw, a sut roedden nhw'n teimlo. Mae pawb yn cael hwyl wedyn!


Llyfrau gan Manon Steffan Ros




Trwy'r Darlun
(Cyfres yr Onnen) £5.95



Trwy'r Tonnau (Cyfres yr Onnen) £5.95
enillydd gwobr Tir na n-Og 2010



Bwystfild a Bwganod
(Cyfres yr Onnen) £5.95



Fel Aderyn £7.95